RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2022

Presennol: Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), y Cynghorydd Margaret Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Barbara Jones (Ffederaswin Gofalwyr Maeth Ynys Môn), Janw Hughes Evans (Iechyd Plant a'r Glasoed, BIPBC), Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr, Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc), Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai), Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol), Clare Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol), Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Llesiant), Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal), Eirian Huws (Ymgynghorydd Personol Gadael Gofal), Sioned Warren (Voices from Care Cymru), Rebecca Owen (Rheolwr Tîm TGP Cymru), Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

Ymddiheuriadau: Llŷr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys), Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu), Nia Hardaker (Swyddog Adolygu Annibynnol), Dawn Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol), Ffion Roberts (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)

(10:00yn - 11:35am)

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	**1 Datganiad o Ddiddordeb**
	Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**3 Materion yn Codi – Voices from Care Cymru**
PENDERFYNIAD	Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad, nodi'r cynnydd hyd yma ac argymell y camau gweithredu a ganlyn er mwyn symud materion yn eu blaen – • Bod Swyddog Datblygu Voices from Care Cymru Ynys Môn yn cynnal trafodaeth â

	Barbara Jones am y posibilrwydd o godi ymwybyddiaeth am y fforwm a denu diddordeb ymysg plant a phobl ifanc trwy Gymdeithas Faethu Ynys Môn. • Bod y swyddogion perthnasol yn y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn trafod ffyrdd o wella cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth am y fforwm yn cael ei rhannu'n eang ymysg y gymuned ofal. Bod y Swyddog Datblygu yn darparu diweddariad pellach ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Panel.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**4 Adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol**
PENDERFYNIAD	Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad, nodi'r materion allweddol a nodi hefyd y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Swyddogion Adolygu Annibynnol.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**5 Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Eiriolaeth 2020/21**
PENDERFYNIAD	Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad, nodi ei gynnwys ac argymell y camau gweithredu a ganlyn – Bod Rheolwr Tîm TGP Cymru yn cyfarfod â'r Gwasanaeth Ôl-ofal i godi ymwybyddiaeth am y rôl eiriolaeth mewn perthynas â Gadael Gofal.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**6 Strategaeth Rhiantu Corfforaethol**
PENDERFYNIAD	Cytunwyd i gymeradwyo'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**8 Gwasanaeth Gadael Gofal**
PENDERFYNIAD	Gwnaed cyflwyniad a chafodd ei nodi.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**10 Cynnydd Addysgol Plant a Phobl Ifanc y Gofelir Amdanynt**
PENDERFYNIAD	Cytunwyd i nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd.

EITEM GYFRINACHOL